Ysgol Brynhyfryd

**Rhaglen Ddysgu 1** – MDPh: Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu – Ffrangeg Blwyddyn 7

**Thema: Cyflwyniad i Ffrangeg a Ieithoedd Rhyngwladol**

**Datganiad o'r hyn sy'n bwysig:**

**HSB1:** Mae ieithoedd yn ein cysylltu a'n gilydd



| **Yr hanner tymor hwn: Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth i'w datblygu:** | **Geiriau/Termau Allweddol:** |
|---|---|
| **Cysyniadau Allweddol: Lle mae Ffrangeg yn cael ei siarad a pham dysgu Ffrangeg? Beth yw'r nodweddion sy'n debyg a'r nodweddion sy'n wahanol rhwng Ffrangeg a Chymraeg/Saesneg?**<br><br>**Bydd myfyrwyr yn gallu** adnabod pethau sy'n debyg rhwng yr ieithoedd a chroesawu'r gwahaniaethau rhyngddynt. Byddant yn siarad ac yn ysgrifennu amdanynt eu hunain, eu brodyr a'u chwiorydd, gan gyfleu gwybodaeth allweddol drwy ddefnyddio brawddegau llawn. Byddant hefyd yn gallu deall testunau darllen a gwrando ar yr agweddau hyn.<br><br>**Bydd y myfyrwyr yn gwybod** lle mae Ffrangeg yn cael ei siarad, synau'r wyddor Ffrangeg, diwrnodau'r wythnos, misoedd y flwyddyn a rhifau 1-31. Byddant hefyd yn gwybod sut i ofyn ac ateb cwestiynau amdanynt eu hunain a'u brodyr a'u chwiorydd, sut i ddefnyddio'r rhagenwau ('*je*', '*tu*', '*il*' and '*elle*'), y ferf 'avoir' (*cael*) a chysyllteiriau.<br><br>**Bydd y myfyrwyr yn dangos eu dealltwriaeth drwy wneud** defnydd o'u gwybodaeth o gysylltiadau, cyffredinrwydd a gwahaniaethau rhwng ieithoedd i gefnogi dysgu sgiliau iaith. | *Les pays francophones, le français, les accents, les jours de la semaine, les mois de l'an et les nombres 1 à 31. Sur le pont d'Avignon, les noms, les verbes, les adjectifs, le présent, l'alphabet. Je m'appelle …, Tu as quel âge? J'ai onze/douze ans, j'habite à, ça va? Mon anniversaire, c'est le …, As-tu des frères et soeurs? J'ai …, Je n'ai pas de ….* |

| **RhDd1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 1:** | | **Meini Prawf Llwyddiant:** | **Gwaith Cartref RhDd1** |
|---|---|---|---|
| 1. Bydd y myfyrwyr yn gallu deall lle mae Ffrangeg yn cael ei siarad a'i bwysigrwydd fel iaith rhyngwladol.<br><br>2. Bydd y myfyrwyr yn gallu deall manteision a defnyddiau Ffrangeg heddiw ac yn y dyfodol.<br><br>3. Bydd y myfyrwyr yn gallu adnabod y nodweddion sy'n debyg a'r gwahaniaethau rhwng Ffrangeg a ieithoedd eraill, gyda ffocws ar ddiwrnodau, misoedd a rhifau. | Asesiad | 1. Ennill ymwybyddiaeth o wledydd Ffrangeg eu hiaith.<br><br>2. Nodi a deall geirfa allweddol yn ymwneud â diwrnodau, misoedd a rhifau 1-31.<br><br>3. Ennill ymwybyddiaeth o acenion, y symbolau ysgrifenedig Ffrangeg. | Dim gwaith cartref. |
| **RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 2:**<br><br>1. Bydd myfyrwyr yn gallu ynganu synau Ffrangeg allweddol a defnyddio'r wyddor Ffrangeg yn gywir.<br><br>2. Bydd y myfyrwyr yn gallu deall hwiangerdd Ffrangeg poblogaidd "Sur le pont d'Avignon" a thynnu iaith allweddol oddi wrtho. | Asesiad | **Meini Prawf Llwyddiant:**<br><br>1. Creu yngangiad a goslef cywir.<br><br>2. Adnabod geiriau allweddol yn y hwiangerdd. | **Gwaith Cartref RhDd1 1**<br><br>Taflen pos rhifedd, gan gynnwys ymarfer defnyddio a dweud y rhifau Ffrangeg. |
| **RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 3:**<br><br>1. Bydd y myfyrwyr yn gallu deall gwybodaeth am bobl ifanc sy'n byw mewn gwledydd Ffrangeg eu hiaith.<br><br>2. Bydd y myfyrwyr yn gallu addasu testunau enghreifftiol i gyfleu manylion yn Ffrangeg amdanynt eu hunain – enw, oed, lle maent yn byw a sut maent yn teimlo.<br><br>3. Bydd y myfyrwyr yn gallu cyfweld ei gilydd a rhannu gwybodaeth am enwau, oed, lle maent yn byw a sut maent yn teimlo. | Asesiad | **Meini Prawf Llwyddiant:**<br><br>1. Adnabod a deall iaith allweddol mewn testunau enghreifftiol.<br><br>2. Creu cwestiynau ac atebion allweddol am enw, oedran, lle rydych yn byw a sut rydych yn teimlo.<br><br>3. Cymryd rhan mewn sgyrsiau a gofyn ac ateb cwestiynau. | **Gwaith Cartref RhDd1 2**<br><br>Cwblhau gweithgareddau ymarfer iaith.<br>*? |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 4:**<br><br>1. Bydd y myfyrwyr yn gallu ateb cwestiynau am pryd mae pobl yn cael eu pen-blwydd, deall a rhoi dyddiadau yn Ffrangeg.<br><br>2. Bydd y myfyrwyr yn deall y gân pen-blwydd Ffrengig “Quelle est la date de ton anniversaire?” ac yn cymryd rhan mewn arolwg dosbarth am ben-blwyddi. | Asesiad | **Meini Prawf Llwyddiant:**<br><br>1. Gofyn ac ateb cwestiwn am ben-blwydd yn gywir.<br><br>2. Cyflawni arolwg dosbarth yn llwyddiannus a thrafod canfyddiadau. | **Gwaith Cartref RhDd1**<br><br>Dim gwaith cartref. |
| **RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 5:**<br><br>1. Bydd y myfyrwyr yn gallu deall dyddiadau allweddol ar y calendr Ffrengig.<br><br>2. Bydd y myfyrwyr yn gallu defnyddio’r ffurf bresennol o’r ferf ‘avoir’ (= *cael*) i siarad am frodyr a chwiorydd, gan roi enwau ac oedrannau eu brodyr a’u chwiorydd. | Asesiad | **Meini Prawf Llwyddiant:**<br><br>1. Cyfateb dyddiadau â gwyliau Ffrengig.<br><br>2. Creu brawddegau llawn i roi gwybodaeth am frodyr a chwiorydd. | **Gwaith Cartref RhDd1**<br><br>Dim gwaith cartref. |
| **RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 6:**<br><br>1. Bydd y myfyrwyr yn gallu cymhwyso a chyfnerthu eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o iaith a strwythurau allweddol drwy gwblhau amrywiaeth o dasgau ymarfer a gweithgareddau adolygu.<br><br>2. Bydd y myfyrwyr yn gallu dylunio a chreu mat dysgu yn cynnwys yr iaith allweddol a ddysgwyd yn ystod RhDd1. | Asesiad | **Meini Prawf Llwyddiant:**<br><br>1. Cyflawni gweithgareddau ymarfer ac adolygu yn llwyddiannus.<br><br>2. Defnyddio’r iaith allweddol yn effeithiol i gyfleu gwybodaeth mewn mat dysgu. | **Gwaith Cartref RhDd1 3**<br><br>Cwblhau taflen adolygu AC.<br>Paratoad AC. |
| **RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 7:**<br><br>**1. Bydd y myfyrwyr yn gallu cymhwyso a dangos sgiliau a gwybodaeth newydd a dealltwriaeth mewn Asesiad Crynodol (AC).** | Asesiad<br><br>AC RhDd1<br><br>Gradd: | **Meini Prawf Llwyddiant:**<br><br>**1. ASESIAD CRYNODOL. Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o iaith allweddol a chymhwyso sgiliau’n effeithiol mewn AC.** | **Gwaith Cartref RhDd1**<br><br>Dim gwaith cartref. |
| **RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 8:**<br><br>1. Bydd y myfyrwyr yn gallu cyflawni gweithgareddau adnabod gwallau a’u cywiro, gan gymhwyso eu gwybodaeth o’r rheolau iaith a ddysgwyd hyd yma.<br><br>2. Bydd y myfyrwyr yn gallu ysgrifennu crynodeb yn egluro’r hyn maent wedi ddysgu yn ystod RhDd1, gan ganolbwyntio ar y nodweddion sy’n debyg ac yn wahanol rhwng Ffrangeg a Chymraeg/Saesneg. | Asesiad | **Meini Prawf Llwyddiant:**<br><br>1. Adnabod a chywiro camgymeriadau.<br><br>2. Hunan-fyfyrio a hunanasesu’n effeithiol. | **Gwaith Cartref RhDd1**<br><br>Dim gwaith cartref. |

**SYLWER, FE ALLAI’R RHAGLEN DDYSGU HON NEWID.**